



Cynhyrchwyd yr hysbysiad hwn ar ran:

AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau dan reolaeth TGAU

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybod i chi am rai pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud ac y mae'n rhaid i chi beidio â'u gwneud wrth i chi gwblhau eich gwaith.

Pan fyddwch chi'n cyflwyno unrhyw waith i'w farcio, gofynnir i chi lofnodi datganiad dilysu yn cadarnhau eich bod chi wedi darllen a dilyn y rheoliadau hyn.

Os nad ydych yn deall unrhyw beth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro neu ddarlithydd.

Bydd asesiad dan reolaeth yn rhoi cyfle i chi wneud rhywfaint o waith ymchwil annibynnol i destun. Gallai'r gwaith ymchwil yr ydych chi'n ei wneud gynnwys chwilio am wybodaeth mewn ffynonellau cyhoeddedig fel gwrslyfrau, gwyddoniaduron, cyfnodolion, teledu, radio ac ar y rhyngwyd.

Mae defnyddio gwybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig (gan gynnwys y rhyngwyd) fel sail ar gyfer eich aseiniad yn ffordd dda o ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc. Ond rhaid i chi ofalu sut rydych yn defnyddio'r deunydd hwn – ni chewch chi ei gopïo a'i ddatgan fel eich gwaith eich hun.

Mae'r rheoliadau'n nodi:

rhaid mai eich gwaith chi yn unig yw'r gwaith a gyflwynwch i'w asesu;

rhaid i chi beidio â chopïo oddi wrth rywun arall na chaniatáu i ymgeisydd arall gopïo oddi wrthyh chi.

Wrth gynhyrchu darn o waith, os ydych chi'n defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, rhaid i chi roi dyfynodau o amgylch y darn a nodi o ble y daeth. Gelwir hyn yn "cyfeirio".

Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi cyfeiriadau manwl i bopeth yn eich gwaith heblaw am eich geiriau eich hun. Dylai cyfeiriad o lyfr neu gyfnodolyn sydd wedi ei argraffu ddangos enw'r awdur, y flwyddyn gyhoeddi a rhif y dudalen, er enghraifft: Morrison, 2000, tud. 29.

Yn achos deunydd o'r rhyngwyd, dylai eich cyfeiriad ddangos y dyddiad y llwythwyd y deunydd i lawr a rhaid dangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo. Gellir copïo hwn o'r llinell cyfeiriad. Er enghraifft: <http://www.geocases2.co.uk/rural1.htm> wedi'i lwytho i lawr 5 Chwefror 2018.

Efallai y bydd gofyn i chi gynnwys llyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith. Bydd eich athro neu eich darlithydd yn rhoi gwybod i chi a oes angen llyfryddiaeth. Lle bo angen, rhaid i'ch llyfryddiaeth restru manylion llawn y cyhoeddiadau rydych chi wedi eu defnyddio yn eich gwaith ymchwil, hyd yn oed lle na chyfeirir yn uniongyrchol atyn nhw, er enghraifft: Morrison, A. (2000) 'Mary, Queen of Scots', Llundain: Weston Press.

Os byddwch yn copïo geiriau neu syniadau pobl eraill ac nad ydych yn dangos eich ffynonellau mewn cyfeiriadau a llyfryddiaeth, bydd hyn yn cael ei ystyried yn dwyllo.

Paratoi eich gwaith – arfer da

Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro/athrawes, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro/athrawes a fydd yna'n yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.

Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar aseiniad, er enghraifft, yn cynnal ymchwil maes, rhaid i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych chi yr un fath, **rhaid** i chi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut cafwyd y data hwnnw a **rhaid i chi ddod i'ch casgliadau eich hun am y data yn annibynnol.**

Rhaid i chi fodloni'r terfynau amser a gewch chi gan eich athro. Cofiwch – mae eich athrawon yno i'ch arwain chi. Er na allan nhw roi cymorth uniongyrchol i chi, gallan nhw eich helpu i ddatrys unrhyw broblemau cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. Peidiwch â'i adael o gwmpas y lle, lle gall eich cyd-ddisgyblion gael gafael arno. Rhaid i chi gadw eich gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser wrth i chi ei baratoi; peidiwch â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadurol, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r peiriant argraffu a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.

Peidiwch â chael eich temptio i ddefnyddio traethodau o gronfeydd traethodau ar-lein — twyllo yw hyn. Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan gyrrff dyfarnu ganfod y math hwn o gopïo.

Ni ddylech chi ysgrifennu deunydd amhriodol, anwedus na sarhaus.

Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau rhywun arall a cheisio honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n ffurf o dwyllo ac mae'n cael ei ystyried yn ddifrifol iawn.**

Peidiwch â meddwl na fyddwch chi'n cael eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad.

- Gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith.
- Mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol sy'n gyfarwydd iawn â gwaith ar y testun dan sylw — efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych chi'n ei defnyddio (neu hyd yn oed wedi marcio'r traethawd rydych chi wedi copïo ohono!).
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngwlad a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

Cosbau am dorri'r rheolau

Os cyflwynir eich gwaith a gwelir eich bod chi wedi torri'r rheoliadau, rhoddir un o'r cosbau canlynol ar waith:

- bydd y darn o waith yn cael sero o farciau;
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r uned honno ar gyfer y gyfres arholiadau dan sylw;
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r pwnc cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau dan sylw;
- byddwch chi'n cael eich diarddel o bob pwnc ac yn cael eich rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

Bydd eich corff dyfarnu'n penderfynu pa gosb sy'n briodol.

COFIWCH – EICH CYMHWYSTER CHI YDYW FELLY RHAID MAI EICH GWAITH CHI YDYW